**PRIFFYRDD, CYMRU**

**2013 RHIF. 52**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

# GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (PRIFFORDD DDIDDOSBARTH SY'N GYFAGOS I COED MILL, GER LLANBEDR, CRUCYWEL, POWYS) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Ionawr* 2013 |
| *Yn dod i rym* | 24 Ionawr 2013 |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**(1)**.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Priffordd Ddiddosbarth sy'n gyfagos i Coed Mill, ger Llanbedr, Crucywel, Powys) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "yr Awdurdod Cynllunio Lleol" ("*the Local Planning Authority*") yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Sir Powys;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi iddo;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan o'r enw "Y Gorchymyn Cau Priffyrdd (Priffordd Ddiddosbarth sy'n gyfagos i Coed Mill, ger Llanbedr, Crucywel, Powys) 2013" sydd gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud ei gyhoeddi yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

**Cau Priffordd**

**2.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4, 5 a 6, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir gyda llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn gallu datblygu yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar 29 Mehefin 2011 o dan gyfeirnod rhif 11/06636/FUL, ac a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**Priffordd(Priffyrdd) newydd / wedi ei(eu) gwella**

**3.** Crëir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 ac a ddangosir gan ddotwaith ar y plan a adneuwyd, a'r priffyrdd y gwneir gwelliannau iddynt a ddisgrifir yn Atodlen 3 ac a ddangosir â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd, a bydd y priffyrdd hyn, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980**(2),** yn briffyrdd sydd i'w cynnal ar draul y pwrs cyhoeddus, a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd ar eu cyfer.

**Y Darpariaethau Angenrheidiol neu Hwylus cyn Cau'r Priffyrdd ac er mwyn Darparu neu Wella'r Priffyrdd**

**4.** Ni chaniateir cau'r rhannau o'r briffordd yn Atodlen 1:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y priffyrdd newydd a gwell a ddisgrifir yn Atodlenni 2 a 3;

(b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos drwy ba fodd y bwriedir cau'r rhan o'r briffordd;

(c) hyd nes y bydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 4 wedi dechrau, a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o'r rheidrwydd i gau'r priffyrdd er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; a

(d) hyd nes y bydd y Cyngor wedi cadarnhau'n ysgrifenedig i'r datblygwr fod paragraffau (a), (b), ac (c) wedi eu bodloni.

**Ymgymerwyr a Darparwyr Statudol**

**5.** Pan fo gan ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r rhannau o briffordd (yn ddarostyngedig i adran 261(4) Deddf 1990), bydd gan

yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o ran y cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 4 wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Ionawr 2013

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1990 p.8. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac erbyn hyn Gweinidogion Cymru sy'n eu harfer yn rhinwedd adran 162 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
**(2)** 1980 p.66

## ATODLEN 1

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y rhannau o'r briffordd sy'n gyfagos i Coed Mill, ger Llanbedr, Crucywel yn Sir Powys**

**<u>Disgrifiad o'r rhan o'r briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn</u>**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy'n 73.3 o fetrau yn y man hiraf, 4.5 metr yn y man lletaf, ei harwynebedd yn 217 o fetrau sgwâr, ac sy'n ymestyn o bwynt "b" hyd at bwynt "e" ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 2

**<u>Disgrifiad o'r briffordd newydd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn</u>**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd yng ngogledd y briffordd sydd i'w chau, a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r

Gorchymyn hwn, sy'n 81 metr yn y man hiraf, 4.2 metr yn y man lletaf, ac sy'n ymestyn o bwynt “g” hyd at bwynt “h” ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 3**

**Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn**

i) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd ar bob diben, sy'n 14.5 metr yn y man hiraf, 2.1 metr yn y man lletaf, ei harwynebedd yn 30.2 metr sgwâr, ac sy'n ymestyn o bwynt “a” hyd at bwynt “b” ar y plan a adneuwyd.

ii) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy'n 14.5 metr yn y man hiraf, 2.6 metr yn y man lletaf, ei harwynebedd yn 37.6 metr sgwâr, ac sy'n ymestyn o bwynt “e” hyd at bwynt “f” ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 4**

**Y Datblygiad**

Adlinio darn, sydd â'i hyd yn 100 o fetrau, o'r briffordd bresennol sy’n gyfagos i Coed Mill, ger Llanbedr, Crucywel yn Sir Powys, gyda darpariaeth ar gyfer mynedfa newydd a hawliau tramwy.

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (PRIFFORDD DDIDDOSBARTH SY’N GYFAGOS I COED MILL, GER LLANBEDR, CRUCYWEL, POWYS) 2013**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn er mwyn darparu'r rhan newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 ac i wella'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3.

Awdurdodir cau'r briffordd fel bod y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 yn gallu cael ei wneud. Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Priffordd Ddiddosbarth sy’n gyfagos i Coed Mill, ger Llanbedr, Crucywel, Powys) 2013 (“y Gorchymyn”) yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol gyda Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Sir Powys, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys LD3 7HP, neu gellir eu cael yn

rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1035756/1.

Os oes unrhyw berson yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn neu'r darpariaethau sydd ynddo, gall wneud hynny ar y seiliau canlynol:

a. Nad yw'r Gorchymyn o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu

b. Bod buddiant wedi ei niweidio'n sylweddol oherwydd methiant i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion Deddf 1990.

Caiff person, o fewn 6 wythnos ar ôl 24 Ionawr 2013, wneud cais i'r Uchel Lys am gael atal neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn os yw seiliau a. neu b. wedi eu bodloni.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Anstatudol Drafft/ Trafnidiaeth, Cymru/Gorchmynion Cau TCPA/2013).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y rhannau o'r briffordd sy'n gyfagos i Coed Mill, ger Llanbedr, Crucywel yn Sir Powys**

**<u>Disgrifiad o'r rhan o'r briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn</u>**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy'n 73.3 o fetrau yn y man hiraf, 4.5 metr yn y man lletaf, ei harwynebedd yn 217 o fetrau sgwâr, ac sy'n

ymestyn o bwynt “b” hyd at bwynt “e” ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 2

**Disgrifiad o'r briffordd newydd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd yng ngogledd y briffordd sydd i'w chau, a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn, sy'n 81 metr yn y man hiraf, 4.2 metr yn y man lletaf, ac sy'n ymestyn o bwynt “g” hyd at bwynt “h” ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 3

**Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn**

i) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd ar bob diben, sy'n 14.5 metr yn y man hiraf, 2.1 metr yn y man lletaf, ei harwynebedd yn 30.2 metr sgwâr, ac sy'n ymestyn o bwynt “a” hyd at bwynt “b” ar y plan a adneuwyd.

ii) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy'n 14.5 metr yn y man hiraf, 2.6 metr yn y man lletaf, ei harwynebedd yn 37.6 metr sgwâr, ac sy'n ymestyn o bwynt “e” hyd at bwynt “f” ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 4

**Y Datblygiad**

Adlinio darn, sydd â’i hyd yn 100 metr, o’r briffordd bresennol sy’n gyfagos i Coed Mill, ger Llanbedr, Crucywel yn Sir Powys, gan ddarparu mynedfa newydd a hawliau tramwy, a hynny yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar 29 Mehefin 2011 o dan gyfeirnod 11/06636/FUL.